# Ruth

Mae stori Ruth yn canolbwyntio ar stori tri o bobl: Naomi, gwraig weddw o Fethlehem yn Jwda; Ruth, ei merch yng nghyfraith sy'n dod o Moab; a Boas, ffermwr sy'n berchen tir o Fethlehem. Mae'r stori annwyl, adnabyddus hon yn adrodd hanes am ymroddiad Ruth i'w mam yng nghyfraith drwy ei dilyn yn ôl i'w chartref a dod o hyd i ffyrdd o ofalu amdani. Yn y diwedd mae hyn yn arwain at ei phriodas â Boas a hithau yn esgor ar un o hynafiaid Dafydd. Gallwch ddarllen y stori hon ar ddwy lefel: y lefel arwynebol sy'n adrodd stori o gariad ac ymroddiad, a'r lefel ddyfnach sy'n datgelu neges o beth allai 'estroniaid' (hyd yn oed estroniaid fel y Moabiaid oedd yn cael eu casáu) eu cyfrannu at stori iachawdwriaeth Duw

## Pa mor hir wnaiff o gymryd?

**Amser darllen:** 15 munud
**Yn brin o amser?** Darllenwch yn unig 1.1-18; 2.1-11; 3.1-10; 4.13-22

## Dosbarth

Stori fer

*(Ruth 1.16-17)*

Bydded i'r ARGLWYDD dy wobrwyo am dy weithred, a bydded iti gael dy dalu'n llawn gan yr Arglwydd, Duw Israel, y daethost i geisio nodded dan ei adain.

*(Ruth 2.12)*

## Ynglŷn â'r Awdur

Does neb yn gwybod unrhyw beth am yr awdur – gallai fod yn unrhyw un bron, o chwedleuwr pentref i rywun oedd yn awyddus i adrodd hanes llinach y brenin.

## Ynglŷn â'r cyfnod

Does neb yn gwybod unrhyw beth am y cyfnod y cafodd ei ysgrifennu chwaith. Gallai fod wedi ei ysgrifennu unrhyw bryd o deyrnasiad y Brenin Dafydd i'r cyfnod wedi'r Gaethglud.

*Beth oedd pobl yn ei deimlo?*

Fel y nodwyd yn y crynodeb, mae gan y stori fymryn o agenda yn ogystal â bod yn stori hyfryd. Dangosodd Ruth 'garedigrwydd cariadus' i Naomi. Y gair Hebraeg am hyn yw hesed ac mae'n air sy'n crynhoi'r cyfamod rhwng Duw a'i bobl – Mae Duw yn dangos caredigrwydd cariadus tuag at ei bobl ac yn disgwyl iddynt ddangos hynny tuag ato Ef hefyd.

Mae'n werth gwybod fod y Moabiaid, fel cymdogion agos, yn archelynion i'r Israeliaid. Felly os oedd Ruth, y Moabiad, yn dangos y fath garedigrwydd cariadus (ac yna i fod yn un o hynafiaid y Brenin Dafydd), gallai olygu fod yr awdur yn gwneud sylw cadarn am sut i weld a thrin estroniaid.

*Llyfrau eraill wedi'u gosod tua'r cyfnod yma*

Joshua a'r Barnwyr

## Sut cafodd ei strwythuro?

| | |
|---|---|
| 1.1-22 | Naomi yn dychwelyd adref yn weddw gyda Ruth |
| 2.1-23 | Ruth yn lloffa gwenith i fyw ac yn cyfarfod Boas |
| 3.1-18 | Ruth yn gweithredu cynllun peryglus i sicrhau dyfodol diogel iddi hi a Naomi |
| 4.1-12 | Boas yn anrhydeddu Ruth ac yn sicrhau ei diogelwch i'r dyfodol |
| 4.13-22 | Mae Ruth yn cael plentyn (ac mae'n ei roi i Naomi) ac yn sicrhau ei llinach sy'n ymestyn ymlaen i'r Brenin Dafydd |

Gallwch drydar lluniau, storïau neu gwestiynau o'ch clwb llyfrau gan ddefnyddio'r hashnod #clwblyfraurbeibl a tag @cymybeibl.

© British and Foreign Bible Society 2017 Bible Society, Stonehill Green, Westlea, Swindon, SN5 7DG cymdeithasybeibl.cymru Elusen gofrestredig 232759